

Ymyriad	Cymunedau Cryf a Gwydn		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed	
			Ambr	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyflawnadwy o hyd	
Yn Arwain	Nicola Prygodzicz / Prif Uwch- arolygydd Ian Roberts	Cyfnod Adrodd	Chwarter 3 2019-20	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau		
<p>Rhaglen â ffocws ar ardal Pilgwenlli - Cynhaliwyd digwyddiad lles cydweithredol ym Mhilgwenlli ar 11 Rhagfyr, gyda digwyddiad lechyd a lles yn cael ei gynnal ar 20 Ionawr 2020, ac ail ddigwyddiad lles cydweithredol wedi'i gynllunio ar gyfer 12 Mawrth. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhan o'r broses o sefydlu Rhwydwaith Lles Cydweithredol ym Mhilgwenlli gyda ffocws ar hyrwyddwyr lles lleol. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio i fusnesau ym Mhilgwenlli yn ddiweddar, i drafod syniadau a phroblemau â'r bwriad o sefydlu fforwm busnesau lleol os câi gefnogaeth. Bellach lluniwyd cytundeb gyda Pill Unity i gynnal digwyddiad Caffi'r Byd a digwyddiad chyllidebu cyfranogol yng Ngwanwyn 2020, a gefnogir gan bartneriaid BGC.</p>		
<p>Rhaglen â ffocws ar ardal Ringland - Mae'r Project Elw Cydfuddiannol i gynyddu cyfalaf cymdeithasol a gallu'r gymuned i wrthsefyll troseddau difrifol a threfnedig yn Ringland wedi'i gwblhau ac wedi'i werthuso. Mae'r cynigion aflwyddiannus o dan y cynllun Cyllidebu Cyfranogol yn cael eu hadolygu nawr gyda'r bwriad o gefnogi projectau ychwanegol a fyddai o fudd i'r gymuned leol. Mae Cartrefi Dinas Casnewydd wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori cymunedol ar ei uwchgynllun adfywio arfaethedig ar gyfer Ringland cyn cyflwyno cais cynllunio yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae cam cyntaf y cartrefi sy'n rhan o adfywiad Cot Farm bellach yn barod ar gyfer tenantiaid.</p>		
<p>Gwella cymorth ar gyfer gwirfoddoli - Mae mapio lles wedi nodi bod rhywfaint o ddarpariaeth leol yn y trydydd sector wedi'i halinio ag ardaloedd hybiau ond mae angen rhagor o waith i nodi bylchau sy'n berthnasol i anghenion y boblogaeth leol. Mae cronfa cyllidebu cyfranogol ar waith i ariannu projectau cymunedol a hybu gwirfoddoli.</p>		
<p>Datblygu hybiau cymunedol amlasiantaethol - Mae gwaith cynllunio ar gyfer Hyb Lechyd a Lles Dwyrain Casnewydd wedi dechrau mewn perthynas â'r model cyflenwi a fydd yn gwella canlyniadau iechyd ar gyfer y boblogaeth leol ac yn ategu'r ddarpariaeth gwasanaethau allan o hyb CDC. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng Casnewydd Fyw a BIPAB i ddatblygu hyb lles gydleodedig yn y Ganolfan Gyswllt ym Mhilgwenlli.</p>		
Prif Risgiau / Rhwystrau i gynydd	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen
Mae dull gweithredu yn seiliedig ar leoedd yn ffordd newydd o weithio a bydd angen newid diwylliannol a threfniadol.	L	Mae arweinwyr Bwrdd Goruchwylio ac Ymyriadau y BGC yn dod o lawer o sefydliadau partner, h.y. lechyd a'r Heddlu.

Mesurau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwiro neddol	CAG
% y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol (dydd/nos)			
% sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol			
% o bobl yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw			
% o bobl sy'n gwirfoddoli			
% o bobl sy'n teimlo'n unig			
Yn datblygu mesurau cyfalaf cymdeithasol ar gyfer Ringland			

Mae cynllun cyflawni wrthi'n cael ei ddatblygu a chaiff mesurau eu cymeradwyo yn ystod y broses hon

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol
Llunio cynllun cyflawni a mesurau perfformiad terfynol ar gyfer yr ymyriad.
Datblygu cynlluniau gweithredu ar sail lleoedd ar gyfer yr hybiau cymdogaeth.
Caiff digwyddiad lles cydweithredol Ringland ei gynnal ar 4 Mawrth
Gweithredu parhaus ar raglen y Campws Cymunedol - digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd i'w gynnal ar 5 Mawrth yng Nghanolfan Lechyd a Lles y Dwyrain
Bore cymdeithasol a chyflwyno placiau i'w gynnal gyda phrojectau wedi'u hariannu yn Ringland i drafod cynnydd a chefnogaeth bellach.
Trafodaethau â Hyb PPNau i gytuno ar gymorth strategol a hyfforddiant ar gyfer y BGC.